Gweiddi

## Tasg 1

# Gyrru gwyllt

1. Mae'r cwestiynau yn yr holiaduron yn y darn darllen yn cael eu hateb gydag "YDW' neu 'NAC YDW'.

Beth yw'r atebion cadarnhaol a negyddol cywir i'r cwestiynau hyn?

| | | |
|---|---|---|
| i) | Ydy e'n byw yng Nghaerdydd? | |
| ii) | Aeth hi i'r sinema neithiwr? | |
| iii) | Wyt ti a dy ffrind am fynd allan heno? | |
| iv) | Oeddech chi yn yr un dosbarth yn yr ysgol gynradd? | |
| v) | Ti oedd y cyntaf i orffen y ras? | |
| vi) | Oedd hi'n bwrw glaw ddoe? | |
| vii) | Fydd dy fam-gu yn dod atoch chi dros y Nadolig? | |
| viii) | Oeddet ti ar facebook neithiwr? | |

2. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r darn, pa un o'r canlynol sydd fwyaf tebygol o ddioddef ef feithiau gyrru gwyllt (road rage)?

**Gosodwch nhw yn y drefn gywir, o'r mwyaf tebygol i'r lleiaf tebygol.**

| | |
|---|---|
| **Car Renault gwyn yn Newcastle** | |
| **Car Jaguar du yng Nghaerlŷr** | 1 |
| **Car Vauxhall coch yn Wolverhampton** | |
| **Car Peugeot du yn Llundain** | |

3. Taflen wybodaeth ydy ‘Gyrru Gwyllt’. Yn y grid ar y dudalen nesaf, rhestrwch 4 o’r nodweddion sy’n profi mai taflen wybodaeth ydy hon, gan roi enghraifft bob tro.

| **Nodwedd** | **Enghraifft** |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

4. Rhannwch yr adroddiad papur newydd i 4 adran gan roi teitl i bob un. Rhowch eiriau cyntaf ac olaf pob adran.

i)

ii)

iii)

iv)

5. Yn y testun isod, tanlinellwch y geiriau sy'n dangos fod y Barnwr yn fodlon pwyso a mesur tystiolaeth.

> Yn y llys, dywedodd y Barnwr Fiona Barr, 'Roedd hwn yn brofiad ymosodol a gododd ddychryn ar Mr Jackson.' Fodd bynnag, derbyniodd y Barnwr nad oedd y math yma o ymddygiad yn rhan o gymeriad Mr Bennet.

6. Pa dair dadl mae Ben Lansbury yn eu defnyddio i geisio lleihau cosb Bennet?

i)

ii)

iii)

7. Ydych chi’n cytuno â’r gosb gafodd Bennet?

Rhestrwch 3 phwynt o blaid y gosb a 3 phwynt yn erbyn y gosb ac yna dewch i benderfyniad.

Os ydych chi’n anghytuno â’r gosb a gafodd, dywedwch pa gosb fyddech chi’n ei rhoi iddo.